# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-18-00 (p3)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Tachwedd 2000, 2:00pm – 5:30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: Cynllun Corfforaethol Drafft 2001-2004**<br><br>(Papur gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) |

**Diben a Gweithredu**

1. Diben y papur hwn yw rhoi cefndir Cynllun Corfforaethol drafft 2001-2004 Awdurdod Datblygu Cymru i'r Pwyllgor (*Atodiad A*).

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a rhoi sylwadau ar gynnwys Cynllun Corfforaethol drafft Awdurdod Datblygu Cymru.

3. Bydd swyddogion o'r WDA yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r Cynllun drafft ac i ateb cwestiynau, sef: -

- Syr David Rowe-Beddoe - Cadeirydd
- Graham Hawker – Prif Weithredwr
- Graham Moore – Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi Strategol; a
- Richard Beaumont – Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol a Chyllid

**Amseriad**

4. Bydd angen cyflwyno barn y Pwyllgor i'r WDA, naill ai yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd neu yn union wedi hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn oherwydd bod y WDA yn gweithio i amserlen dynn (gweler paragraff 7 isod).

**Cefndir**

5. Mae Cynllun Corfforaethol y WDA yn rhan bwysig o'i gylch cynllunio. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y fframwaith strategol a amlinellwyd yn llythyr Cyfarwyddyd Strategol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2000 gan Brif Weinidog Cymru, yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor yn EDC-04-00 (mae copi yn *Atodiad B*).

6. Mae'r Cynllun yn ddogfen strategol am y tair blynedd 2001-2004. NID oes bwriad iddo gynnwys cynigion manwl ar gyfer projectau penodol; yn hytrach, mae'n cynnig gorolwg o weithgareddau arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer y tair blynedd nesaf.

7. Bydd yn sylfaen strategol ar gyfer llunio Cynllun Busnes manwl 2001-2002. Bydd y WDA yn drafftio ei Gynllun Busnes yn ystod y misoedd nesaf, a chaiff Cynllun drafft ei gyflwyno i'r Pwyllgor i ymgynghori arno yn Chwefror 2001.

**Crynodeb**

8. Yr un yw pedwar "Blaenoriaeth Strategol" y WDA fel yn ei gynlluniau blaenorol:-

- Cynyddu Cyfranogiad;
- Ychwanegu Gwerth;
- Rhyngwladoli; a
- Chynyddu Mentergarwch.

9. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn cynnwys dadansoddiad o economi Cymru ac yn nodi'r dulliau y gall y WDA gynorthwyo'r Cynulliad i gyrraedd y targedau a nodwyd yn www.gwellcymru.com.

10. Mae'r tablau cyllideb manwl sy'n rhan o'r atodiadau i'r Cynllun yn seiliedig ar gyllideb ddrafft y Cynulliad, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 19 Hydref.

**Sylwadau**

11. Yr wyf yn fodlon iawn â'r gwaith a wnaed gan y WDA wrth baratoi'r Cynllun drafft hwn. Mae'n adlewyrchiad teg o lythyr Cyfarwyddyd Strategol y Cynulliad, ac yn gyffredinol rwyf yn fodlon â chywair a chynnwys y Cynllun.

12. Er hynny, ers cyhoeddi'r Cyfarwyddyd Strategol i'r WDA, llofnodwyd y Cytundeb Partneriaeth, ac yr wyf yn awyddus i sicrhau bod ei flaenoriaethau yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun hwn. Felly, yr wyf wedi gofyn i swyddogion gysylltu â'r WDA er mwyn sicrhau bod gweledigaeth y Cytundeb ar gyfer mewnfuddsoddi (Pennod 4, paragraff 12) yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun drafft.

13. Yr wyf yn edrych ymlaen i glywed sylwadau'r Pwyllgor ar hyn ac ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft.

**Cydymffurfio**

14. Sefydlwyd y WDA gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru). Cafodd pwerau eu trosglwyddo o dan y Ddeddf honno i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff.

15. Mae Datganiad Rheoli y WDA (adran 3.5) yn datgan y bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu, bob blwyddyn, gynllun Corfforaethol tair blynedd. Dogfen gan yr Awdurdod yw hon ac felly nid oes angen i'r Pwyllgor (nac ychwaith y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) "gymeradwyo'r" Cynllun drafft. Er hynny, efallai y bydd y WDA am glywed barn y Pwyllgor. Nid oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â rheoleidd-dra na phriodoldeb ac mae Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad yn fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

16. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r WDA yn ystod y flwyddyn ariannol hon eu talu o ddarpariaeth gyllidebol bresennol y WDA. Mae'r gyllideb ddrafft a gaiff ei chyhoeddi ar 19 Hydref yn cynnwys gwariant arfaethedig y WDA ar gyfer bob un o'r 3 blynedd ariannol nesaf. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol a nodwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn deillio o hyn.